# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Bro Sion Cwilt

Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2025

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae disgyblion, staff a rhieni yn ymfalchïo yn naws gyfeillgar, gynhwysol a theuluol yr ysgol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn adeiladu perthnasoedd gwaith cadarnhaol ag aelodau staff sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at yr awyrgylch ddysgu fuddiol a threfnus.

Mae staff yn darparu amgylchedd ddysgu lliwgar a difyr lle gall pob grŵp o ddisgyblion ddysgu'n gynhyrchiol. Ar draws yr ysgol, mae staff yn datblygu medrau'r disgyblion yn bwrpasol wrth ddarparu profiadau cyffrous a diddorol iddynt trwy weithgareddau a heriau yn y dosbarthiadau ac yn yr ardaloedd tu allan. Er hyn, mae staff yn dueddol o arwain y dysgu yn ormodol, sy'n aml yn cyfyngu ar allu'r disgyblion i ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau gwrando a darllen yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Ar frig yr ysgol, pan gânt y cyfle, mae llawer yn datblygu eu medrau ysgrifennu yn y ddwy iaith yn briodol. Fodd bynnag, cyfyng yw'r cyfleoedd a gaiff y disgyblion i ysgrifennu'n estynedig, ar y cyfan.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Mae staff yn adnabod disgyblion sydd angen cefnogaeth yn fuan ac yn darparu rhaglenni cefnogi amserol. Mae staff yn cydweithio'n agos â rhieni er mwyn monitro cynnydd ac adnabod y camau nesaf yn y dysgu.

Mae'r pennaeth yn rhannu ei weledigaeth, sef 'Gwireddu pob breuddwyd', yn glir, ac mae cymuned yr ysgol yn cydweithio'n ddiwyd i'w gwireddu. Caiff yr ysgol ei harwain yn effeithiol gan dîm medrus sy'n adnabod y cryfderau a'r agweddau sydd angen eu gwella. Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol i holl waith yr ysgol ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r camau gwella nesaf.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1. Ymestyn y cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu estynedig ar draws y meysydd dysgu

A2. Ehangu'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 31/03/2025